| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD :** | **13 Ebrill 2011** |
| **TEITL :** | **Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau** |
| **AWDUR :** | **Swyddog Monitro** |
| **GWEITHREDU :** | **Adolygu cylch gorchwyl y pwyllgor** |

**Cefndir**

1. Ar hyn o bryd y materion canlynol sydd o fewn Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau:

**“Rôl a swyddogaeth**

Bydd gan y Pwyllgor Safonau y rolau a’r swyddogaethau canlynol:

(a) hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan gynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr eglwysig a rhieni-lywodraethwyr;

(b) cynorthwyo’r cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr eglwysig a rhieni-lywodraethwyr i gadw Cod Ymddygiad yr Aelodau;

(c) cynghori’r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio Cod Ymddygiad yr Aelodau;

(ch) monitro gweithredu Cod Ymddygiad yr Aelodau;

(d) cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr eglwysig a rhieni lywodraethwyr ar faterion yn ymwneud â Chod Ymddygiad yr Aelodau;

(dd) rhoi gollyngiadau i gynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr eglwysig a rhieni lywodraethwyr o ofynion yn ymwneud â buddiannau a gyflwynwyd yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau;

(e) ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos dros dro, ac unrhyw adroddiad oddi wrth y swyddog monitro ar unrhyw fater a gyfeiriwyd at y swyddog hwnnw gan *Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru*;

(f) awdurdodi’r Swyddog Monitro i dalu lwfansau a threuliau i bersonau a’i cynorthwyodd gydag ymchwiliad;

(ff) ymarfer (a) i (f) uchod mewn perthynas â’r cynghorau cymuned sy’n gyfangwbl neu gan fwyaf yn ei ardal ac aelodau’r cynghorau cymuned hynny.”

2. Y materion yma yw’r rhai sydd yn gyfrifoldeb i bob pwyllgor safonau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a’r rheoliadau perthnasol eraill.

3. Mae Deddf 2000 serch hynny yn caniatáu i awdurdod drefnu i’w bwyllgor safonau arfer unrhyw swyddogaethau eraill y mae’n teimlo sy’n addas.

4. Wrth ystyried os oes materion eraill a allai fod yn addas ar gyfer y pwyllgor, mae’r canlynol, oherwydd eu natur, yn bynciau posib:

- Polisi Rhoddion a Lletygarwch Aelodau
- Polisi Rhoddion a Lletygarwch Staff
- Polisi Buddiannau Staff
- Polisi Canu’r Gloch

5. Croesewir hefyd unrhyw awgrymiadau sydd gan y Pwyllgor ynglŷn ag ychwanegiadau i’w swyddogaethau.

6. Petai’r Pwyllgor yn teimlo fod swyddogaethau eraill dylid eu hychwanegu, byddai’n rhaid cyflwyno’r argymhellion i’r Cyngor llawn am benderfyniad.

**Argymhellion**

7. Gofynnir i’r Pwyllgor adolygu ei gylch gorchwyl ac ystyried os oes materion y cred y dylid eu hychwanegu ato.